Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd:** **<u>Cynorthwy-ydd Ymchwil: Awtistiaeth o'r Misglwyf i'r Menopos (cyfnod mamolaeth)</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | **Y GYFADRAN MEDDYGAETH, IECHYD A GWYDDOR BYWYD** |
| **Adran/Pwnc:** | **Yr Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol** |
| **Cyflog:** | **Gradd 7:£34,132 i £38,249 y flwyddyn** |
| **Oriau gwaith:** | **amser llawn** |
| **Nifer y swyddi:** | **1** |
| **Contract:** | **Swydd 12 mis yw hon i gyflenwi yn ystod absenoldeb mamolaeth, ar gael o 14 Gorffennaf 2026.** |
| **Lleoliad:** | **Bydd y swydd hon ar Gampws Singleton ond gellir cytuno ar drefniadau gweithio hyblyg yn unol â pholisi gweithio ystwyth y Brifysgol.Gall aelodau staff anabl geisio am addasiadau i weithio gartref yn barhaol os oes angen.** |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddyletswyddau** | 1. Gweithio mewn model cymdeithasol o niwrowahaniaeth sy'n gwerthfawrogi Awtistiaeth fel rhan arferol o amrywiaeth wybyddol<br>2. Hwyluso defnydd aelodau Cyngor Cymuned a chyfranogwyr ymchwil i addasiadau rhesymol, er enghraifft, cyfathrebu'n ysgrifenedig â rhai cyfranogwyr yn unig, addasu cyfarwyddiadau fel eu bod wedi'u teilwra i anghenion unigolion<br>3. Cyd-gynhyrchu data gyda chyfranogwyr trwy ddefnyddio tasgau cyn-gyfweliad gweledol a chreadigol a chyfweliadau dan arweiniad y cyfranogwyr<br>4. Dadansoddi data cyfweliadau gan ddefnyddio NVivo fel rhan o dîm o 5 ymchwilydd |
| | 5. Cyfrannu'n rhagweithiol at ymchwil a chynnal ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, creu syniadau gwreiddiol a chyflwyno canlyniadau.<br>6. Paratoi adroddiadau, drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi.<br>7. Bod yn hunangymhellol a defnyddio menter bersonol, gan geisio dod o hyd i ffyrdd addas o ymdrin â heriau a gofyn am arweiniad pan fo angen.<br>8. Rhyngweithio mewn modd cadarnhaol a phroffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Gyfadran ac mewn mannau eraill yn y Brifysgol a'r tu hwnt fel y bo'n briodol, megis ym myd diwydiant/masnach, sefydliadau cyhoeddus a'r byd academaidd.<br>9. Cyfrannu at faterion trefniadaethol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n hwylus a helpu i godi ei phroffil ymchwil allanol.<br>*10.* Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes o safbwynt technegol, penodol a chyffredinol, a'u goblygiadau ehangach ar gyfer maes y ddisgyblaeth, cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth.<br>11. Bod yn gynrychiolydd neu'n aelod o bwyllgorau pan fo angen gan ddefnyddio'r cyfle i ehangu eich profiad proffesiynol.<br>12. Dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol personol, gan nodi anghenion datblygu drwy gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran y cyfnod prawf, adolygiadau datblygiad proffesiynol a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant.<br>13. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff perthynol eraill.<br>14. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion sefydliadau addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 15. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>16. Cyflawni'r swydd a'r holl weithgareddau'n unol â pholisïau iechyd a diogelwch a chynaliadwyedd a systemau rheoli, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o weithgareddau'r gwaith.<br>17. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |

| | |
|---|---|
| | 18. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/y Gyfarwyddiaeth/y Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br><br>1. Gradd yn y gwyddorau cymdeithasol neu gyfwerth<br>2. Tystiolaeth o'r gallu i gymryd rhan weithredol mewn ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn arbennig ar gyfer cyfnodolion a adolygir a chyfrannu atynt.<br>3. Gallu amlwg i gynnal ymchwil yn unol ag amcanion y prosiect.<br>4. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio i gyfrannu at y prosiect ymchwil.<br>5. Profiad sylweddol o Awtistiaeth mewn persbectif sy'n cadarnhau niwroamrywiaeth, gan gynnwys fel person Awtistig, profiad personol, profiad ymchwil neu brofiad gwaith<br>6. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br><br>7. Cymwysterau – cymwysterau ymchwil ôl-raddedig, fel MRes neu PhD neu debyg<br>8. Gwybodaeth am iechyd atgenhedlu/gofal iechyd mewn perthynas â'r canlynol: Mislif, atal cenhedlu, iechyd gynaecolegol, beichiogrwydd, camau cynnar magu plant, y menopos neu debyg<br>9. Gwybodaeth am rwystrau i gael mynediad at ofal iechyd i bobl Awtistig |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Gofynnir i ymgeiswyr am:<br>1. Curriculum Vitae<br>2. Llythyr eglurhaol, yn manylu ar sut maen nhw'n bodloni'r meini prawf hanfodol a dymunol<br>3. Datganiad heb fod yn fwy na 1,000 o eiriau yn ymateb i'r cwestiwn hwn: Sut fyddai eich gwybodaeth a'ch profiad o Awtistiaeth yn sicrhau eich bod yn gallu rhoi cymorth rhagorol i gyfranogwyr Awtistig yn yr astudiaeth hon?<br><br>Ymholiadau anffurfiol: Dr Aimee Grant, Aimee.grant@abertawe.ac.uk<br><br>***Mae gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd yn ofynnol a rhaid i hwn gael ei dderbyn a'i asesu cyn y gellir cadarnhau dyddiad dechrau.*** |